

SL(6)059 - Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig

Cefndir a Diben

Mae'r [Cwricwlwm i Gymru - Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig](#) ("y Cod") yn rhoi dyletswydd statudol ar ysgolion a lleoliadau i sicrhau bod eu gwaith o ddylunio a chynllunio cwricwlwm o dan Fframwaith y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cynnwys ac yn defnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a nodir yn y Cod.

Mae'r Cod yn nodi 27 o ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws y chwe maes dysgu a phrofiad y mae'n rhaid i bob ysgol a gynhelir a phob lleoliad a ariennir nas cynhelir seilio eu cwricwlwm arnynt.

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn nodi'r chwe maes dysgu, sef y celfyddydau mynegiannol; iechyd a lles; dyniaethau; ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a rhifedd; a gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae Adran 6 o'r Ddeddf yn nodi na fydd cwricwlwm nac addysgu a dysgu yn cwmpasu maes dysgu a phrofiad oni fydd yn cwmpasu'r cysyniadau hynny a nodir yn y Cod.

Gweithdrefn

Drafft negyddol. Oni bai bod y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'w osod, bydd y Cod Ymarfer yn dod i rym ym mis Medi 2022.

Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7(iv) mewn perthynas â'r cod hwn.

1. Ni fwriedir i'r Cod ddod i rym tan fis Medi 2022. Mae'r Pwyllgor yn nodi o'r Memorandwm Esboniadol fod hyn er mwyn caniatáu diweddarau canllawiau yn unol â'r Cod "*er mwyn rhoi mwy o amser i ysgolion a lleoliadau ddefnyddio'r cyngor hwnnw i lywio eu gwaith o ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm drwy gydol blwyddyn academaidd 2021/22*". Mae'r Pwyllgor yn nodi ymhellach y bydd diweddariadau i ganllawiau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.



Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor y Cod yn ei gyfarfod ar 11 Hydref 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—
Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee